# JOHNS, WILLIAM NICHOLAS (1834 - 1898), argraffydd, hynafiaethydd perchennog newyddiaduron, a golygydd

**Enw:** William Nicholas Johns
**Dyddiad geni:** 1834
**Dyddiad marw:** 1898
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** argraffydd, hynafiaethydd perchennog newyddiaduron, a golygydd
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** William John Townsend Collins

Ganwyd 20 Ebrill 1834 yn Poole, Dorset. Ymsefydlodd yng Nghasnewydd-ar-Wysg yn 1835, a sefydlodd *The Newport Gazette* yn 1857. Cychwynnodd newyddiadur prynhawnol cyntaf sir Fynwy - *The Evening Telegraph* (y papur newydd prynhawnol dimai cyntaf yn Ne Cymru) yn 1870; cyhoeddodd a golygodd hefyd *The Star of Gwent and South Wales Times* a'r *Evening Star of Gwent*. Ysgrifennai erthyglau ar bynciau hynafiaethol a hanesyddol i'w newyddiaduron ac ail-gyhoeddwyd rhai o'r rhain yn llyfrau - *Chartist Riots at Newport*, 1839 (1884, ail arg. yn 1889), *Historical Facts and Traditions relating to Newport and Caerleon* (chwe rhan, 1880-5), *History of the Church of S. Gwynllyw*, 1891; *John's Household Almanack and Guide to Local Information*, 1857, 1858, 1860-70, 1896, 1898, a *Newport Directory and Year Book*, 1885. Bu farw 11 Mawrth 1898 yng Nghasnewydd-ar-Wysg.

## Awdur

**William John Townsend Collins**, (1868 - 1952)

## Ffynonellau

Gwybodaeth bersonol

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738187

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu